# Hybu cyfathrebu effeithiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu cyfathrebu effeithiol ar gyfer unigolion. Mae'n cynnwys nodi dewisiadau ac anghenion cyfathrebu'r unigolyn, cefnogi unigolion i gyfathrebu, a chyfathrebu'n effeithiol ag eraill drwy gofnodion ac adroddiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion cyfathrebu unigolion
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gadarnhau dewisiadau ac anghenion cyfathrebu, yn unol â chynlluniau gofal neu gymorth
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi eu ffyrdd o weithio llafar a di-lafar wrth gyfathrebu
4. trefnu amgylcheddau a'ch sefyllfa i gyfathrebu mor effeithiol â phosibl
5. annog unigolion i gael gafael ar unrhyw gymorth, cymhorthion, dyfeisiau neu adnoddau digidol ar gyfer cyfathrebu, a'u defnyddio
6. defnyddio ffyrdd o weithio sy'n addas i gynnwys a phwrpas y rhyngweithiadau wrth gyfathrebu
7. cefnogi annibyniaeth unigolion i fynegi eu meddyliau ac emosiynau
8. defnyddio lefel, tôn a chyflymder iaith addas i hybu cyfranogiad a chyd-ddealltwriaeth o'r rhyngweithiadau
9. gwrando ac ymateb mewn ffordd sy'n dangos eich bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu unigolion
10. rhoi cymorth i unigolion i gyfathrebu ag eraill
11. modelu rhyngweithiadau effeithiol ag unigolion ac eraill
12. addasu eich ffyrdd o weithio i gwrdd â dewisiadau ac anghenion unigolion wrth gyfathrebu
13. cefnogi unigolion ac eraill i roi gwybod a lwyddwyd i gwrdd â’u dewisiadau a'u hanghenion cyfathrebu, yn unol â chynlluniau gofal neu gymorth
14. cefnogi unigolion ac eraill i drafod cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â nhw
15. cyfnewid gwybodaeth ag eraill i lywio eu gwaith nhw a'ch gwaith chi
16. cwblhau cofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cyfathrebu effeithiol
17. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu cyfathrebu effeithiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth a chymorth i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu
2. sut mae gwahaniaethau a phrofiadau yn gallu effeithio ar y ffordd mae unigolion yn cyfathrebu
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar anghenion cyfathrebu ac iaith unigolion ac eraill
4. dylanwad diwylliant a chefndir ar sgiliau cyfathrebu llafar a di-lafar unigolion ac eraill
5. ffactorau sy'n gallu cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar sgiliau cyfathrebu a datblygiad iaith
6. sut mae cyfathrebu'n gallu effeithio ar hunaniaeth a hunan-barch unigolion
7. pa gamau i'w cymryd os yw cyfathrebu'n cyfleu straen neu drallod unigolion
8. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi o ran cyfathrebu effeithiol
9. dulliau a thechnegau i hybu sgiliau cyfathrebu i alluogi unigolion i fynegi eu hanghenion, eu barn a'u dewisiadau
10. gwahanol fathau o gymhorthion, dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi wrth gyfathrebu
11. sut mae amgylcheddau a lleoliadau'n gallu cefnogi ac atal gwahanol anghenion cyfathrebu
12. sut mae trefnu amgylcheddau a safleoedd i gyfathrebu mor effeithiol â phosibl
13. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu cyfathrebu effeithiol
14. sut mae adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
15. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gyfathrebu
16. rôl rhyngweithio wrth ddatblygu a chefnogi â sgiliau iaith a chyfathrebu unigolion
17. pwysigrwydd chwarae neu weithgareddau o ran cefnogi â chyfathrebu effeithiol
18. egwyddorion gwrando gweithredol
19. sut mae cael caniatâd i weld cofnodion ac adroddiadau
20. gofynion y gweithle ar gyfer cwblhau cofnodion ac adroddiadau
21. y gwahaniaeth rhwng ffaith, barn a dyfarniad wrth gofnodi gwybodaeth
22. pam mae cyfathrebu proffesiynol yn bwysig yn y gweithle
23. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai effeithio ar hawliau unigolion o ran cyfathrebu effeithiol

24. damcaniaethau sy'n berthnasol i hybu cyfathrebu effeithiol
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu cyfathrebu effeithiol
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu cyfathrebu effeithiol
27. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu cyfathrebu effeithiol
28. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu cyfathrebu effeithiol, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu o ran cyfathrebu effeithiol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hybu cyfathrebu effeithiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD31 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cyfathrebu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |